ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT

ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT

YMGYNGHORIAD

Sicrhewch eich bod yn cael lleisio'ch barn…

O 1af Ebrill 2008 ymlaen, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gynnal Asesiad ar Ddigonolrwydd Gofal Plant, fel eu bod yn gallu gweithio tuag at sicrhau gofal plant 'digonol', er mwyn diwallu anghenion rhieni a gofalwyr lle bo'n gyfiawnadwy a chynaliadwy gwneud hynny.

Fel rhan o'r broses Asesu Digonolrwydd Gofal Plant, hoffai Cyngor Sir Caerfyrddin wahodd rhieni, gofalwyr, cyflogwyr, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach i roi sylwadau ar ei ***Asesiad DRAFFT*** cyntaf.

Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal rhwng Tachwedd 10 fed - Rhagfyr 19 eg.

Mae hwn yn gyfle i helpu i lunio dyfodol gofal plant yn Sir Gaerfyrddin. Rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl ymatebion a dderbynnir cyn y dyddiad cau.

ENW:

SEFYDLIAD:

CYFEIRIAD:

CYFEIRIAD E-BOST:

CWESTIYNAU'R YMGYNGHORIAD

1. Mae'r Asesiad yn tynnu sylw at yr angen i ymchwilio i ba mor gynaliadwy yw datblygu lleoedd ychwanegol mewn meithrinfeydd dydd ar draws y sir (yn enwedig lleoedd mewn meithrinfeydd dydd cyfrwng Cymraeg yn Llanelli). A fyddech chi'n cefnogi'r argymhelliad hwn?

2. Mae'r Asesiad yn tynnu sylw at yr angen i annog meithrinfeydd dydd a gofalwyr plant i fod yn fwy hyblyg er mwyn diwallu anghenion rhieni/gofalwyr sy'n gweithio sifftiau ac oriau anghymdeithasol. A fyddech chi'n cefnogi'r argymhelliad hwn?

3. Mae'r Asesiad yn argymell cydweithio gyda'r darparwyr gofal plant presennol a darparwyr posibl er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth gofal gwyliau (yn enwedig yn ardaloedd rhwydwaith cymunedol Llanelli, Taf Myrddin a Gwendraeth). A fyddech chi'n cefnogi'r argymhelliad hwn?

4. Mae'r Asesiad yn argymell ymchwilio i ba mor gynaliadwy yw datblygu gofal ar ôl ysgol ymhellach ar gyfer plant oedran ysgol gynradd (yn enwedig yn ardaloedd rhwydwaith cymunedol Llanelli, Aman a Gwendraeth). A fyddech chi'n cefnogi'r argymhelliad hwn?

5. Mae'r Asesiad yn argymell datblygu gofal a dysgu ar ôl ysgol sy'n ddeniadol i'r grŵp oedran 11-14 ar draws y Sir fel bod rhieni/gofalwyr yn gallu cydbwyso'u hymrwymiadau gwaith a gofal plant. A fyddech chi'n cefnogi'r argymhelliad hwn?

6. Mae'r Asesiad yn argymell parhau i godi ymwybyddiaeth am Y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant, er mwyn sicrhau bod teuluoedd, yn enwedig y rhai sydd ar y cyrion, yn gallu cael y wybodaeth y mae arnynt ei hangen mewn lle cyfleus ac mewn fformat priodol. A fyddech chi'n cefnogi'r argymhelliad hwn?

7. Mae'r Asesiad yn argymell darparu gwybodaeth well am y budd-daliadau a'r hawliau sydd ar gael i rieni a gofalwyr cymwys i helpu gyda chost gofal plant. Mae hefyd yn argymell sicrhau bod staff Y Gwasanaeth Gwybodaeth Plant yn cael y wybodaeth lawn am beth sydd ar gael a sut i wneud cais amdano (gan gynnwys elfen gofal plant y Credydau Treth Gwaith). A fyddech chi'n cefnogi'r argymhelliad hwn? A ydych yn cytuno mai'r Gwasanaeth Gwybodaeth Plant yw'r lle mwyaf priodol i gael y wybodaeth hon?

8. Mae'r Asesiad yn argymell ymchwilio i anghenion gofal plant sydd ag anableddau, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth tu allan i oriau ysgol ac yn ystod gwyliau, er mwyn datblygu mwy o leoedd gofal plant sy'n gynhwysol. A ydych chi'n cytuno y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol?

9. Mae'r Asesiad yn argymell ymgynghori â chynrychiolwyr grwpiau lleiafrifoedd ethnig i weld pa broblemau, os o gwbl, sy'n eu hwynebu o ran gofal plant. A fyddech chi'n cefnogi'r argymhelliad hwn?

10. Ydych chi'n sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn Sir Gaerfyrddin sydd eisoes wedi cynllunio gwaith i fynd i'r afael ag unrhyw un o'r argymhellion a geir yn yr Asesiad? (Os ydych, rhowch fanylion)

11. Oes unrhyw ffactorau eraill y dylid eu hystyried wrth gynllunio dyfodol gofal plant yn Sir Gaerfyrddin?

12. Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol eraill am yr Asesiad hwn? (Defnyddiwch dudalen ar wahân os oes angen)

Diolch am dreulio amser yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir yn cael eu cynnwys mewn adroddiad a'u hystyried yn ofalus.

Bydd yr adroddiad ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Bartneriaeth Plant ar dudalen Digonolrwydd Gofal Plant.

www.carmarthenshirechildrenspartnership.org.uk

Anfonwch y ffurflenni wedi'u llenwi at:
Lisa Morgan
Swyddog y Bartneriaeth Plant
Y Bartneriaeth Plant
Lôn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SW

neu
E-bostiwch:LJMorgan@sirgar.gov.uk

Partneriaeth Plant Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire Children's Partnership